**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**YNYS MÔN 2026**

**Cystadleuaeth 88 – Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad)**

# Blwyddyn o Liwiau, Meirion MacIntyre Huws

Ionawr sydd yn fferru'r llyn,
a chlecian mae fy nannedd gwyn.

Bwgan ydy'r hen fis bach
a'i nos yn ddu fel clogyn gwrach.

Mawrth sy'n felyn drosto i gyd
a chennin ar ei frest o hyd.

Mae gan Ebrill frws paent gwyrdd
i beintio'r wlad o boptu'r ffyrdd.

Het fioled sydd gan Mai,
hi yw'r harddaf a dim llai.

Mehefin wedyn, pinc yw hon,
fel y candi fflos ar ffon.

Gorffennaf sydd yn rhedeg ras
a'i lygaid fel yr awyr las.

Dwylo Awst sy'n aur i gyd,
yn y cwm mae caeau ŷd.

O Gaerdydd i Abersoch,
mae Medi'n llawn o aeron coch.

Hydref sydd yn drwm ei droed
a'i sgidiau'n frown fel dail y coed.

Mae gan Dachwedd gôt fawr lwyd,
crwydro mae o Fôn i Glwyd.

Llwm yw Rhagfyr bron pob awr,
ond am ryw hyd mae'n enfys fawr.